

Prifysgol Wreccsam
Wrexham University

Polisi Enwau Myfyrwyr

2026/27

Cynnwys

1	Diben	2
2	Cofnodi enw yn y lle cyntaf	2
3	Newid enw yn ystod cyfnod astudio	2
4	Tystysgrifau Dyfarnu.....	3
5	Cywiriadau	4
6	Cyflwyno enw myfyriwr	4
7	Trefniadau gyda sefydliadau Partner	4
8	Hygyrchedd	4

1 Diben

1.1. Mae'r gyfraith yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn caniatáu i unigolion newid eu henwau heb roi gwybod i unrhyw un, oni bai bod y newid wedi'i fwriadu i dwyllo. Gan gydnabod hyn, mae gan y Brifysgol ddyletswydd fel sefydliad cyhoeddus i atal a rhwystro twyll ac am y rheswm yma mae angen cofrestru myfyrwyr i ddefnyddio eu henwau "swyddogol". Mae gan y Brifysgol yr hawl i wneud y gofyn hwn yn orfodol. Effaith hyn yw mai dim ond enwau swyddogol pob myfyriwr fydd yn cael eu cofnodi yn erbyn cofnodion cofrestru ac ar gyfer enwau sy'n cael eu defnyddio yn dilyn hynny ar dystysgrifau a thrawsgrifiadau sy'n cydnabod dyfarniadau. Gall myfyrwyr hefyd gofnodi enw cyntaf 'a adwaenir fel', sy'n gallu bod yn enw dewisol yn SITS er mwyn adlewyrchu eu dewis o ddydd i ddydd, ond ni fydd hyn yn ymddangos ar ddogfennau swyddogol.

2 Cofnodi enw yn y lle cyntaf

2.1. Wrth gofrestru bydd yn ofynnol i fyfyrwyr gyflwyno tystiolaeth o'u henw a roddir yn un o'r dogfennau canlynol ar gyfer ei gofnodi ar gofnod canolog y Brifysgol:

- Tystysgrif Mabwysiadu
- Tystysgrif Geni
- Cerdyn adnabod cenedlaethol aelod o wladwriaeth y EEA
- Pasbort
- Trwydded yrru'r DU neu drwydded yrru cerdyn ffotograff EEA cyfredol (dros dro neu lawn)

2.2. Os yw myfyriwr wedi mabwysiadu ffugenw am resymau personol, gan gynnwys ar gyfer diogelwch personol, bydd angen i'r Brifysgol fod wedi gweld adroddiad gan yr heddlu neu lythyr gan gyfreithiwr fel tystiolaeth o'r enw a ddefnyddiwyd. Yn yr achos hwn, dylai'r ymgeisydd neu'r myfyriwr ohebu'n gyfrinachol gyda'r Cofrestrydd Academaidd yn uniongyrchol.

3 Newid enw yn ystod cyfnod astudio

3.1. Yn ystod eu cyfnod yn astudio gallai fod achos i fyfyrwyr newid eu henw fel y cafodd ei roi wrth gofrestru. Caniateir hyn ar sail yr hyn y manylir arno isod.

3.2. Ei fod ond yn digwydd heb fod yn llai nag wythnos cyn y Bwrdd Dyfarnu ar gyfer dyfarniad y myfyriwr.

3.3. Os oes newid drwy briodas, yna rhaid cyflwyno tystysgrif priodas.

3.4. Os yw myfyriwr yn mynd yn ôl i ddefnyddio'u henw cyn priodi yn sgil ysgariad, yna bydd angen archddyfarniad absoliwt, tystysgrif geni a datganiad ysgrifenedig wedi'i lofnodi yn cadarnhau bod y myfyriwr wedi mynd yn ôl i ddefnyddio eu henw morwynol at bob pwrpas.

3.5. Os yw'r myfyriwr yn newid enw gan ddefnyddio Gweithred Newid Enw (a adwaenid yn flaenorol fel Gweithred Unrhan), bydd y Brifysgol angen gweld y weithred.

3.6. Os oes enw newydd yn cael ei gofnodi yn y Gofrestr Genedigaethau, yna bydd y Brifysgol angen gweld copi wedi'i ardystio o'r newid. Darperir hyn fel arfer drwy gyfrwng tystysgrif geni fformat llawn sy'n cael ei ail-ddarparu, fydd yn dangos y diwygiad.

3.7. Ar gyfer 3.2 i 3.5 uchod, bydd y dogfennau a restrir o dan 2 uchod sy'n dangos yr enw newydd hefyd yn cael eu derbyn.

3.8. Pan fydd newid enw drwy gyhoeddiad cyhoeddus, er enghraifft, drwy hysbysiad mewn papur newydd cenedlaethol sy'n datgan bod y myfyriwr wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio ei enw ef neu hi a'u bod wedi dechrau defnyddio un newydd, dylid darparu tystiolaeth o hyn gyda chopi gwreiddiol o'r hysbysiad.

3.9. Ar gyfer newid enw drwy ddatganiad statudol, sy'n dynodi y bydd y myfyriwr yn rhoi'r gorau i ddefnyddio eu hen enw ac yn mabwysiadu un newydd, bydd y Brifysgol angen gweld y ddogfen datganiad wreiddiol a gwblhawyd.

3.10. Bydd mabwysiadu ffugenw am resymau diogelwch personol yn cael ei gydnabod os yw adroddiad gan yr heddlu neu gyfreithiwr yn gallu cael ei ddarparu fel tystiolaeth bod yr enw'n cael ei ddefnyddio'n gyfreithiol. Yn yr achos hwn, dylai'r myfyriwr ohebu yn gyfrinachol gyda'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn uniongyrchol...

4 Tystysgrifau Dyfarnu

4.1. Bydd enwau myfyrwyr ar dystysgrifau dyfarnu'n cael eu hargraffu yn y fformat canlynol yn ddiofyn:

- ENW(AU) CYNTAF, CYFENW

4.2. Bydd myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partner oddi allan i'r DU yn cael cynnig cyfle i ddynodi'r drefn enwi ddewisol ar dystysgrifau dyfarnu yn unol â'r confensiynau enwi lleol cymdeithasol derbyniol, er enghraifft:

- CYFENW, ENW(AU) CYNTAF

4.3. Ni fydd y Brifysgol fel arfer yn cynhyrchu neu'n ailddarparu dogfennaeth, gan gynnwys tystysgrifau a thrawsgrifiadau, o dan enwau sydd wedi newid wedi i ddyfarniad y cadarnheir bod y myfyriwr wedi'i dderbyn gan Fwrdd Asesu, neu Weithred Cadeirydd dilynol, ac eithrio yn achos newid enw o ganlyniad i ailbennu rhywedd a gydnabyddir yn gyfreithlon. Bydd myfyrwyr eraill o dan amgylchiadau a allai ddynodi'r angen am ystyriaeth eithriadol, fodd bynnag, yn gallu ymgeisio yn ysgrifenedig gyda'r ddogfennaeth gefnogi berthnasol i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a'r tîm Systemau Cofnod Myfyriwr (SRS) neu enwebydd.

5 Cywiriadau

5.1. Mae'r cyfrifoldeb ar fyfyrwyr i sicrhau bod y Brifysgol yn dal y cofnod cywir o'u henw, gan gynnwys ei sillafiad. Bydd y Brifysgol yn darparu mynediad at ei System Rheoli Gwybodaeth er mwyn galluogi i fyfyrwyr wirio eu henwau. Bydd y Brifysgol yn mynd i'r afael â chywiro gwallau y mae wedi'i wneud yn cofnodi enwau a bydd yn ailgynhyrchu dogfennaeth yn ôl yr angen.

6 Cyflwyno enw myfyriwr

6.1. Mae systemau'r Brifysgol yn gosod cyfyngiadau ar gofnodi enwau.

6.2. Bydd hyd at dri enw cyntaf yn cael eu cofnodi (hyd at 30 nod yr un), wedi'i ddilyn gan gyfenw neu enw teuluol (hyd at 40 nod). Dyma'r enwau a gynrychiolir ar dystysgrifau ac fe'u cynhyrchir yn nhrefn enw cyntaf wedi'i ddilyn gan gyfenw. Ni all y Brifysgol warantu bod pob dogfennaeth yn dangos enwau cyflawn lle mae'r enwau'n llenwi pob maes enw'n gyfan gwbl (h.y. 130 nod gan gynnwys bylchau).

6.3. Bydd y Brifysgol yn cofnodi "Enw blaenorol" lle mae myfyriwr yn newid cyfenw drwy unrhyw un o'r prosesau a adnabuwyd yn flaenorol neu'n darparu ymrestriad enw blaenorol: ni fydd hyn yn cael ei ailgynhyrchu ar ddogfennaeth, ac mae er mwyn sicrhau bod olrhain myfyrwyr yn effeithiol.

6.4. Bydd y Brifysgol yn cofnodi cyfenw "Adwaenir fel" er mwyn galluogi myfyrwyr i gael eu hadnabod o fewn y Brifysgol gydag enw dewisol (e.e. enw wedi'i dalfyrru, enw cyntaf heb law am y cyntaf o'u henwau cyntaf, enw amgen 'Gorllewinol' ac ati). Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gofnodi neu wrthod enw amhriodol a gynigir fel enw "Adwaenir fel". Ni fydd yr enw "Adwaenir fel" yn cael ei atgynhyrchu ar ddogfennaeth megis dystysgrifau a thrawsgrifiadau.

7 Trefniadau gyda sefydliadau Partner

7.1. Bydd enwau myfyrwyr a gyflwynir gan sefydliadau partner angen cadw at y polisi hwn, cyn belled nad yw hyn yn gwrthdaro gyda rhwymedigaethau lleol rheolaethol a statudol.

8 Hygyrchedd

8.1. Mae Prifysgol Wrexham yn ymdrechu i fod yn brifysgol gefnogol wedi'i llywio gan drawma wrth ddylunio a gweithredu ein holl brosesau a gweithdrefnau. Os oes angen addasiadau arnoch i gael mynediad at y weithdrefn hon neu os oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar hygyrchedd, geiriad neu unrhyw ran o'r weithdrefn hon, anfonwch e-bost atom ar academic.appeals@wrexham.ac.uk.